

**CORFF LLYWODRAETHOL
YR EGLWYS YNG NGHYMRO**

**YR EGLWYS YNG NGHYMRO A'I
CHLADDFEYDD**

Ebrill 2010

**THE GOVERNING BODY OF THE
CHURCH IN WALES**

**THE CHURCH IN WALES AND ITS BURIAL
GROUNDS**

April 2010

**CORFF LLYWODRAETHOL
YR EGLWYS YNG NGHYMRO**

**YR EGLWYS YNG NGHYMRO A'I
CHLADDFEYDD**

Ebrill 2010

**THE GOVERNING BODY OF THE
CHURCH IN WALES**

**THE CHURCH IN WALES AND ITS BURIAL
GROUNDS**

April 2010

CORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU EBRILL 2010

YR EGLWYS YNG NGHYMRU A'I CHLADDFEYDD

1. Cyflwyniad

Mae thema'r Corff Llywodraethol hwn yn edrych yn ôl ar y 90 mlynedd sydd wedi mynd heibio ers datgysylltiad yr Eglwys ac yn edrych ymlaen at y canmlwyddiant yn 2020.

Perchnogaeth a rheolaeth claddfeydd oedd un o'r materion oedd yn achosi'r mwyaf o ddadlau yn ystod y broses ddatgysylltu ac mae'r papur hwn yn ystyried sut rydym wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol a pha gamau y gallwn eu cymryd i sicrhau ein bod yn gallu rheoli ein claddfeydd yn briodol yn y dyfodol.

2. Hanes

Sefydlwyd yr Eglwys yng Nghymru yn 1920 yn dilyn datgysylltiad Eglwys Lloegr yng Nghymru. Y gwahaniaethau rhwng enwadau mewn perthynas â hawliau claddu oedd yn gyfrifol am y datgysylltu i raddau. Gwelwyd hyn amlycaf yn achos Llanfrothen sy'n werth ei adrodd gan ei fod pennu'r sylfeini o ran sut y bu i'r Eglwys yng Nghymru gyrraedd ei sefyllfa bresennol.

Yn ôl y Gyfraith Gyffredin, mae gan bob preswlydd hawl i gael ei gladdu ym mynwent neu gladdfa'r plwyf hwnnw. Yn yr 19^{eg} ganrif, roedd rhaid cynnal pob gwasanaeth claddu o dan ddefodau Anglicanaidd. Roedd hyn yn amhoblogaidd ymysg preswylwyr anghydfurfiol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gan mai'r fynwent Anglicanaidd oedd yr unig gladdfa.

Roedd Deddf Diwygio y Cyfreithiau Claddu 1880 yn caniatáu rhywun oedd am gael defod wahanol i gyflwyno hysbysiad 48 awr i'r periglor i alluogi hyn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn boblogaidd bob amser ac roedd yna bob math o 'driciau' yn cael eu cyflawni i atal gwasanaethau ananglicanaidd rhag digwydd e.e. gwrthod caniatâd i ddefnyddio elordai, mynnu bod rhaid defnyddio mynedfeydd lletchwith, neu fynnu bod bedd yn wynebu o gyfeiriad y gogledd i'r de.

Ym 1864, rhoddodd gwraig o'r enw Mrs Owen ddarn o dir i'r eglwys Anglicanaidd ar gyfer ehangu'r fynwent yn Llanfrothen (rhodd ar lafar ar y pryd). Cafwyd y gwasanaeth claddu cyntaf ym 1872. Ym 1881, cynhaliwyd gwasanaeth claddu ananglicanaidd yn dilyn gweithdrefnau Deddf 1880 er gwaethaf protestio'r periglor. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, llofnododd Mrs Owen weithred yn cyfyngu defnydd y tir i ddefodau Anglicanaidd (17 mlynedd ar ôl y rhodd lafar).

Ym 1888, bu farw gŵr o'r enw Mr Robert Roberts. Roedd am gael ei gladdu wrth ymyl ei ferch yn y gladdfa newydd. Cytunodd y rheithor ac fe agorwyd bedd ond yna cyflwynwyd hysbysiad Deddf 1880. Gorchmynnodd y rheithor i'r bedd parod gael ei gau a dynododd leoliad newydd i'r bedd. Dywedodd David Lloyd George (a oedd yn gyfreithiwr ar y pryd) wrth y teulu am fynd i'r gladdfa newydd ac ail-agor y bedd ac i falu'r gât os oedd honno wedi'i chloi. Roedd y gât wedi'i chloi. Fe'i torrwyd a chynhaliwyd y gwasanaeth claddu. Erlynodd y rheithor y teulu am dresmasu.

Enillwyd y frwydr gyfreithiol ar apêl gan Lloyd George. Penderfynwyd bod y tir wedi'i drosglwyddo ym 1864 ac nad oedd modd newid y telerau'n ddiweddarach. Dri diwrnod ar ôl y dyfarniad, mabwysiadwyd Lloyd George fel yr ymgeisydd Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Caernarfon.

THE GOVERNING BODY OF THE CHURCH IN WALES APRIL 2010

THE CHURCH IN WALES AND ITS BURIAL GROUNDS

1. Introduction

The theme of this Governing Body looks back over 90 years since disestablishment and looks ahead to the centenary in 2020. The ownership and management of burial grounds was one of the most contentious issues in the process of disestablishment and this paper considers how we have arrived at the present position and what steps can be taken to ensure we can properly manage our burial grounds into the future.

2. History

The Church in Wales was formed in 1920 following disestablishment of the Church of England in Wales. To an extent, it was because of differences between denominations over burial rights that the Church in Wales was disestablished. This was shown most clearly by the Llanfrothen case which it is worth recounting as it establishes the foundations of how the Church in Wales came to be where it is today.

By Common Law, every resident has a right of burial in the churchyard or burial ground of that parish. In the 19th century, any burial service had to take place under Anglican rites which was not popular amongst non-conformist residents especially in rural areas where the Anglican churchyard was the only burial ground.

The Burial Laws Amendment Act of 1880 permitted someone who wanted a different rite to serve 48 hours notice on the incumbent to permit this. However, this was not always popular and there were reports of all sorts of 'tricks' to prevent non Anglican services taking place e.g refusing to allow bier houses to be used, insisting on awkward entrances being used, or insisting on a north-south grave orientation.

In 1864, a Mrs Owen gave an area of land to the Anglican church for an extension to the burial ground at Llanfrothen (the gift was a verbal one at that time). The first burial took place in 1872. In 1881, a non Anglican burial took place following the 1880 Act procedures much to the protest of the incumbent. Later in 1881, Mrs Owen signed a deed limiting the use of the land to Anglican rites (17 years after the verbal gift).

In 1888, a Mr Robert Roberts died. He wanted to be buried in the new burial ground beside his daughter. The rector agreed and the grave was dug but then an 1880 Act notice was served. The rector immediately had the prepared grave filled in and allocated a new location for the grave. David Lloyd George (as a solicitor at the time) told the family to enter and re-open the grave and if the gate was locked to smash it down. The gate was locked. They broke it down and the burial took place. The rector sued for trespass.

The legal battle was won on appeal by Lloyd George. It was held that the land had been conveyed in 1864 and the terms could not be changed later. Three days after the verdict, Lloyd George was adopted as the Liberal candidate for Caernarfon Boroughs.

Trosglwyddwyd asedau eiddo Eglwys Loegr fel rhan o'r broses ddatgysylltu. Trosglwyddwyd y manau gwaith fel Eglwysi, Persondai a Neuaddau Eglwys ac ychydig o dir yr eglwys i'r Eglwys yng Nghymru newydd, drwy Gomisiynwyr Eglwys Cymru, i'w cadw gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Trosglwyddwyd daliadau tir eraill Eglwys Lloegr i Awdurdodau Lleol a Phrifysgol Cymru.

Ond roedd hi'n anos datrys claddfeydd. Trosglwyddwyd rhai mynwentydd hynafol iawn i'r Corff Cynrychiolwyr adeg y datgysylltu ond roedd llawer wedi aros heb eu trosglwyddo. Roedd llawer o'r Cymry yn teimlo mai asedau 'cymunedol' oedd claddfeydd nid rhai 'enwadol'. Roedd Deddf Eglwys Cymru 1914 wedi cyflwyno darpariaeth, adeg y datgysylltu, i drosglwyddo claddfeydd i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth yn ddewisol (o ganlyniad i Ddeddf (Eiddo Bydol) Eglwys Cymru 1919) ac ychydig iawn o Awdurdodau Lleol a ddewisodd eu mabwysiadu (yn sgil y baich oedd yn gysylltiedig â chladdfeydd mae'n debyg). Roedd y rhan fwyaf o gladdfeydd yn dal yng ngofal plwyfi'r Eglwys yng Nghymru ac wedi'u 'hesgeuluso' yn gyfreithiol nes Deddf Eglwys Cymru (Claddfeydd) 1945

Yn ystod y blynyddoedd rhwng y datgysylltu ac 1945 gwelwyd bod y Plwyfi'n barod i ofalu am y mynwentydd a bod hawliau claddu pob enwad wedi'u parchu. Cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd pobl yn dueddol o gytuno y dylai'r Eglwys yng Nghymru gadw'r claddfeydd hyn ar sail yr hyn a ddigwyddodd yn y blynyddoedd rhwng y datgysylltu ac 1945 a'r awydd i weld Comisiynwyr Eglwys Cymru'n dod i ben.

Ar 10 Gorffennaf 1942, cytunodd y Corff Cynrychiolwyr ar y penderfyniadau canlynol:

1. *Bod y Corff Cynrychiolwyr unwaith eto yn mynegi ei barodrwydd i dderbyn trosglwyddo mynwentydd hynafol a wrthodwyd gan awdurdodau lleol ac na fydd yn gofyn am unrhyw daliad tuag at waith trwsio*
2. *Bod y Corff Cynrychiolwyr hefyd yn barod i dderbyn trosglwyddo unrhyw fynwent a roddwyd i awdurdod lleol o dan Ddeddf Eglwys Cymru yn amodol ar y ddwy ochr yn cytuno ar y telerau.*

Cyflwynwyd y rhain i'r Llywodraeth mewn memorandwm arbennig dyddiedig 21 Mawrth 1944 i aelodau Plaid Seneddol Cymru. Gan ei bod hi'n amser rhyfel roedd hi'n hanfodol na fyddai anghytundeb ynglŷn â'r ddeddfwriaeth arfaethedig i ddeddfu unrhyw drosglwyddiad gan na ellid gwastraffu amser y senedd.

Cafodd Deddf 1945 ei phasio yn ddiwrthwynebiad a throsglwyddwyd cyfrifoldeb am yr holl fynwentydd nad oedd yng ngofal Awdurdodau Lleol (700 ohonynt) i'r Eglwys yng Nghymru. Ni chafwyd addewid gan y Wladwriaeth na'r Awdurdodau Lleol i gyfrannu at gostau. Mae hi'n ffaith fod y trosglwyddiad hwn wedi digwydd am fod yr Eglwys yng Nghymru wedi gofyn am hynny.

Roedd Deddf 1945 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Corff Cynrychiolwyr:

- cadw unrhyw gladdfa mewn cyflwr da a chadw amwynderau safle'r gladdfa ar gyfer mwynhad y cyhoedd *Adran 3.3*
- sicrhau na wahaniaethir o gwbl rhwng aelodau o'r Eglwys yng Nghymru ac unrhyw unigolion eraill sy'n cael eu claddu mewn unrhyw gladdfa *Adran 4.1*

Disestablishment involved the transfer of the property assets of the Church of England. The 'working plant' such as Churches, Parsonages and Church Halls together with a limited amount of glebe was transferred to the new Church in Wales, via the Welsh Church Commissioners, to be held by the Representative Body of the Church in Wales. Other Church of England land holdings were transferred to Local Authorities and the University of Wales.

Burial grounds were, however, more complex to resolve. Some very old churchyards transferred to the Representative Body at disestablishment but a large number did not. Many people in Wales felt that burial grounds were 'community' rather than 'denominational' assets. Within the Welsh Church Act 1914 there was provision, at the time of disestablishment, for burial grounds to be transferred to Local Authorities. However, this provision was optional (as a result of the Welsh Church Temporalities Act 1919) and very few Local Authorities opted to take them over (presumably because of the burden the burial ground presented). Most burial grounds continued to be cared for by the Church in Wales' parishes and were legally in 'limbo' until the Welsh Church (Burial Grounds) Act 1945.

The years between disestablishment and 1945 had proved that the Parishes were willing to care for the churchyards and rights of burial had been respected regardless of denomination. The mood before the Second World War became increasingly positive towards the Church in Wales retaining these burial grounds because of both the experience of the intervening years and the desire to wind up the Welsh Church Commissioners.

On the 10th July 1942, the Representative Body passed the following resolutions:

1. *That the Representative Body again expresses its willingness to accept the transfer of ancient churchyards which have been refused by local authorities and will not ask for any payment towards repairs*
2. *That the Representative Body is also prepared to accept the transfer of any churchyard which has become vested in a local authority under the Welsh Church Act subject to terms being agreed upon by both parties.*

These were communicated to Government by an impressive memorandum dated 21st March 1944 to members of the Welsh Parliamentary Party. It being wartime it was essential that the proposed legislation to enact any transfer was non contentious as parliamentary time could not be wasted.

The 1945 Act was passed unopposed and transferred responsibility for all remaining churchyards that had not passed to Local Authorities (700 of them) to the Church in Wales. There was no undertaking from the State or Local Authorities to contribute to costs. The fact is that this transfer happened because the Church in Wales asked for it to happen.

The 1945 Act obliged the Representative Body to:

- 'maintain in decent order any burial ground' and to 'preserve for the enjoyment of the public the amenities of the locality in which the burial ground is situated' *Section 3.3*
- ensure 'no discrimination shall be made between the burial of members of the Church in Wales and of any other persons in any burial ground' *Section 4.1*

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ffioedd Claddu gael eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru erbyn hyn. Yr Eglwys yng Nghymru yw'r unig awdurdod claddu yng Nghymru i fod â ffioedd claddu wedi'u rheoli gan y Llywodraeth.

Mae'r Ddeddf ond yn berthnasol i gladdfeydd fel roeddynt yn bodoli ym 1945 ac nid yw'n gosod rhwymedigaeth ar y Corff Cynrychiolwyr i ymestyn y ddeddf i gynnwys claddfeydd newydd pan fydd y rhai presennol yn llawn.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru y pŵer i ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw mynwentydd sydd wedi cau (dim rhagor o le) ond nid oes dyletswydd arnynt i wneud hynny. Mae yna ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud hyn yn Lloegr.

O dan y Cyfansoddiad, mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig (PCC) yn gyfrifol am gynnal a chadw a rheoli pob eglwys a mynwent er mai'r Corff Cynrychiolwyr yw perchennog yr eiddo. Ers 1945, mae plwyfi wedi ceisio cynnal mynwentydd fel asedau cymunedol. Gyda chynulleidfaoedd llai, llai o bobl yn gallu gwneud gwaith corfforol, a chymorth ariannol allanol yn brin, mae Ddeddf 1945 wedi gosod baich trwm ar Blwyfi. Mae hyn yn arbennig o wir am fynwentydd sydd wedi cau (lle na cheir incwm pellach) neu fynwentydd eglwysi gwag lle mae'r gynulleidfa wedi symud i rywle arall.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn berchen ar 1220 mynwent (1053 ohonynt yn gladdfeydd) sy'n cael eu cynnal gan bob PCC ym mhob Plwyf.

Yn 2007, lluniodd y Corff Cynrychiolwyr holiadur a'i ddsbarthu i bob clerigwr oedd â mynwent dan eu gofal. Gofynnodd yr holiadur nifer o gwestiynau ynglŷn â'r lle sydd ar gael/darpariaeth a chynnal a chadw/cymorth. Derbyniwyd holiaduron yn ôl ar gyfer 57.5% o fynwentydd. Dadansoddwyd y canlyniadau gan ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol. Prif ganlyniadau'r arolwg oedd:

Lle sydd ar gael

1. Mae 25% o fynwentydd sydd â chladdfeydd yn llawn
2. Mae gan 43% lai na 20 man claddu ar ôl
3. Roedd yr arolwg yn dangos cyfartaledd o 3 claddedigaeth y flwyddyn ym mhob mynwent
4. Y pellter sy'n rhaid i bobl ei deithio ar gyfartaledd i fynwent gymunedol yw 5 milltir

Bydd dwy ran o dair o'n mynwentydd yn llawn o fewn y 10 mlynedd nesaf

(Dylid nodi na ddylid agor bedd o'r newydd mewn man lle claddwyd rhywun yn barod, waeth pa mor hen ydyw).

The Act also required that Burial Fees are approved by the, now, First Minister. The Church in Wales is the only burial authority in Wales to have Government controlled burial fees.

The Act only applies to burial grounds as they existed in 1945 and placed no obligation on the Representative Body to provide for an extension of burial grounds or for new burials grounds when the existing grounds became full.

Under the Local Government Act 1972, Local Authorities in Wales have the power but not the duty to take over the maintenance of churchyards that are closed for burial (there being no more space). In England, Local Authorities have a duty to do so.

Under the Constitution, the PCC is responsible for the maintenance and management of each church and churchyard albeit that ownership of the property rests with the Representative Body. Since 1945, parishes have tried to maintain churchyards as community assets. With falling congregations, fewer people able to undertake physical work, and little external financial support the burdens placed on Parishes by the 1945 Act have become very onerous. This is particularly true for churchyards that are closed (where there is no further income) or churchyards which surround redundant churches where the focus of the congregation is elsewhere.

3. Present Position

The Church in Wales owns 1220 churchyards (1053 of which are burial grounds) which are maintained by each PCC in each Parish.

In 2007, the RB devised a questionnaire and distributed it to all clerics with churchyards in their care. The questionnaire asked a number of questions grouped around capacity/provision and maintenance/support. We received returns for 57.5% of the churchyards. Analysis of the results was undertaken by an independent research consultancy. The headline results of the survey are:

Capacity

1. 25% of churchyards with burials are full
2. 43% have fewer than 20 burial spaces remaining
3. The survey showed an average of 3 burials per year in each churchyard
4. The average distance to a community cemetery is 5 miles

Two thirds of our churchyards will have no more space for burial within 10 years

(It should be noted that new burials cannot take place in any space occupied by an existing burial, however old).

Cyflwr

1. Mae 86% o fynwentydd wedi'u nodi fel rhai sydd mewn cyflwr cyffredinol da iawn neu gymharol dda
2. Dywedodd 14% nad oedd eu mynwent mewn cyflwr da (mynwentydd agored); 23% yn achos mynwentydd sydd wedi cau
3. Dywedodd 23% nad oedd gatiâu, waliau a ffensys mewn cyflwr da. Waliau oedd y diffyg mwyaf cyffredin (54%)
4. Yr eitemau cynnal a chadw angenrheidiol mwyaf cyffredin oedd llwybrau (49%), clirio chwyn (15%), a choed (13%)

Mae'r rhan fwyaf o fynwentydd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ond nid yw'r safon cystal pan fo'r fynwent wedi cau. Waliau ffiniol a llwybrau yw'r prif broblemau.

Cynnal a chadw

1. Mae 66% o fynwentydd yn cael eu cynnal a'u cadw gan wirfoddolwyr yn bennaf (yn hytrach na chontractwyr)
2. Ar gyfartaledd, mae gwirfoddolwyr yn rhoi 13 awr y mis i gynnal a chadw pob mynwent

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi 125,000 awr o waith gwirfoddol i gynnal a chadw mynwentydd ledled Cymru. Mae hyn yn gyfwerth â thalu £1.3 miliwn am lafur

Incwm a Chostau

1. £420 yw incwm blynyddol cyfartalog pob mynwent (ond mae 61% yn derbyn llai na £300)
2. £780 yw cost cynnal a chadw'r mynwent bob blwyddyn ar gyfartaledd
3. Nid yw 70% o fynwentydd yn derbyn unrhyw gymorth ariannol gan gyrff allanol
4. £6100 yw'r swm cyfartalog yr amcangyfrifir sydd ei angen ar gyfer gwaith ym mhob mynwent, gyda £6,800 arall ar gyfer waliau mynwentydd (£12,900)
5. £2,930 yw cronfeydd cynnal a chadw mynwentydd ar gyfartaledd.

Mae yna werth £16 miliwn o waith wedi'i nodi ar gyfer ein mynwentydd gyda dim ond £3.6 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn i dalu am hyn.

Casgliadau

- Bydd mwyafrif y mynwentydd yn llawn yn fuan
- Mae'r gwaith cynnal a chadw yn eithaf da ar hyn o bryd ond mae yna waith trwsio sylweddol angen ei wneud na all adnoddau cyfredol dalu amdano
- Nid yw'r incwm a geir o gladdu yn talu costau
- Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu llawer iawn at gynnal yr asedau cenedlaethol hyn

Dylid nodi bod y Corff Cynrychiolwyr yn darparu cymorth ariannol cyfyngedig i Blwyfi, lle bo'n bosibl, ar gyfer cynnal a chadw a gwella mynwentydd.

Condition

1. 86% of churchyards are rated as in very or fairly good overall condition
2. 14% said their churchyard was not in good order (open churchyards); 23% for closed churchyards
3. 23% said gates, walls and fences were not in good order. Walls were the most common (54%)
4. The most common items of general maintenance required were paths (49%), weed clearance (15%), Trees (13%)

Most churchyards are being maintained well but maintenance is less good when a churchyard is closed. Boundary walls and paths are the main problems.

Maintenance

1. 66% of churchyards are maintained mostly by volunteers (as opposed to contractors)
2. Volunteers give, on average, 13 hours each month to maintaining each churchyard

Volunteers give 125,000 hours of volunteer time across Wales to maintaining churchyards. That is equivalent to £1.3m of paid labour

Income and Costs

1. Average annual income per churchyard is £420 (but 61% receive less than £300)
2. The average cost of annual maintenance is £780
3. 70% of churchyards receive no financial help from outside bodies
4. £6100 is the average amount estimated to be needed for works in each churchyard, with a further £6,800 for churchyard walls (£12,900)
5. Churchyard maintenance funds average £2,930.

There are £16 million of works identified for our churchyards with just £3.6m held in reserves to meet these costs.

Conclusions

- The majority of Churchyards will soon be full
- Maintenance is generally good at present but there is a significant repair liability which cannot be met by existing resources
- Income from burials does not cover costs
- Volunteers contribute a significant amount to maintaining these national assets

It should be noted that the Representative Body does provide limited financial assistance to Parishes, where possible, for the maintenance and improvement of churchyards.

4. Canfyddiadau'r Cyhoedd

Cynhaliodd y Corff Cynrychiolwyr waith ymchwil (drwy Beaufort Research, Caerdydd) i ganfyddiad y cyhoedd o fynwentydd yr Eglwys yng Nghymru. Datgelodd y gwaith ymchwil:

- Dim ond 16% o boblogaeth Cymru sy'n gwybod fod gan yr Eglwys yng Nghymru rwymedigaeth gyfreithiol i gladdu pobl yn ei mynwentydd waeth beth fo'u cred neu a ydynt yn aelodau o'r Eglwys ai peidio (34% ymysg pobl sy'n mynd i'r eglwys)
- Nid yw bron hanner y boblogaeth (47%) yn ystyried bod hyn yn deg
- Mae mynwentydd yn cael eu hystyried fel manau pwysig – mae 88% yn cytuno fod mynwentydd yn bwysig i'r gymuned leol
- Mae mwyafrif llethol oedolion Cymru (96%) yn cytuno y dylid cynnal a chadw mynwentydd yn briodol
- Roedd 74% yn cytuno y dylai'r Llywodraeth helpu i dalu am waith cynnal a chadw mynwentydd a dim ond traean o ymatebwyr oedd yn teimlo fod gan yr Eglwys yng Nghymru ddigon o arian i gynnal a chadw mynwentydd a manau claddu.

5. Awdurdodau Lleol

Awdurdodau Lleol yw prif ddarparwyr claddfeydd yng Nghymru. Mae'n hysbys eu bod yn cael trafferth i ganfod digon o arian i gynnal y claddfeydd dan eu rheolaeth ac nad oes digon o le ar gael mewn rhai ardaloedd. Mae mynwentydd awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn fawr ac mewn lleoliadau trefol; mewn cymunedau gwledig, gall y fynwent fod filltiroedd lawer o gartref pobl. Mae'r ffioedd claddu'n amrywio'n sylweddol hefyd.

Mae'n ddiddorol bod cyfraith gladdu'r DU yn cyflwyno darlun cymysg lle nad yw'n ddyletswydd bendant ar unrhyw awdurdod i ddarparu claddfeydd a'r trefniadau'n ddigyswllt i raddau helaeth. Ni cheir unrhyw drafodaeth strategol am y lle sydd ar gael neu'r gwaith cynllunio y tu hwnt i waith cynllunio cyfyngedig ar gyfer argyfwng. Efallai fod cyfle yma yng Nghymru, o ystyried maint y wlad, i gynllunio a chydgysylltu darpariaeth a threfniadau rheoli claddfeydd yn briodol ac mewn ffordd gydgyssylltiedig.

6. Y Dyfodol

Mae'r Corff Cynrychiolwyr wedi ceisio annog dulliau rheoli effeithiol ar gyfer mynwentydd a chladdfeydd trwy gyhoeddi canllawiau a chynghor. Paratowyd canllawiau ar reoli mynwentydd i Blwyfi. Bwriad y rhain yw helpu Plwyfi i ddeall eu rhwymedigaethau ac i ddatblygu dulliau rheoli priodol ar gyfer mynwentydd. Gallwch weld y canllawiau yn: http://www.churchinwales.org.uk/resources/property/docs/Churchyard_Guidance.doc

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi'r Eglwys ac mae'n werth nodi bod y Corff Cynrychiolwyr yn annog plwyfi i beidio ag ehangu mynwentydd neu ddefnyddio ardaloedd newydd i gladdu oni bai fod yna gymorth ariannol digonol ar gael i gynnal y llwyth ychwanegol yn y tymor hir.

Mae llobio'r Llywodraeth ynglŷn â threfniadau cynnal a chadw mynwentydd sydd wedi cau wedi bod yn nod tymor hir. Dros y 5 mlynedd diwethaf, codwyd y mater hwn ar wahanol lefelau a chyda sefydliadau ac unigolion gwahanol.

4. Public Perceptions

The RB also conducted some research (through Beaufort Research, Cardiff) into the public's perception of the issue of Church in Wales Churchyards. This revealed:

- Only 16% of the Welsh population are aware that the Church in Wales is legally obliged to bury people in its churchyards regardless of belief or membership (34% amongst church-goers)
- Nearly half the population (47%) does not see this is fair
- Churchyards are regarded as important – 88% agree that 'Churchyards are important to the local community'
- The overwhelming majority of Welsh adults (96%) agree that 'Churchyards should be maintained properly'
- 74% agreed that 'The Government should help pay for the maintenance of Churchyards' and just a third of respondents felt that 'The Church in Wales has plenty of money to maintain churchyards and burial grounds'.

5. Local Authorities

Local Authorities are the primary providers of burial space in Wales. It is known that some struggle to find sufficient funding to maintain the burial grounds they manage and that there are issues of capacity in some areas. Local Authority cemeteries tend to be large and based in urban locations; for rural communities the cemetery can be many miles from home. There is also wide variation in the fees charged for burials.

It is interesting that UK burial law presents a mixed picture where provision of burial space is not a clear duty on any authority and thus is left largely uncoordinated. There is no strategic discussion about capacity or planning beyond limited emergency pandemic planning. There is perhaps an opportunity in Wales, given its size, to properly plan and coordinate the provision of burial space and its management in a coordinated way.

6. The Future

The Representative Body has sought to encourage effective management of churchyards and burial grounds through the publication of guidance and advice. A guidance document has been prepared for Parishes concerning the management of Churchyards. This is intended to help Parishes understand their obligations and to develop appropriate management for churchyards. It can be viewed at:

http://www.churchinwales.org.uk/resources/property/docs/Churchyard_Guidance.doc

Within this document, the Church's policy is set out and it will be noted that the Representative Body is discouraging the extension of churchyards or the use of new areas for burials unless sufficient financial support is in place to sustain the additional burden in the long term.

It has been a long standing aim to try to lobby government over arrangements for the maintenance of closed churchyards. Over the last 5 years, this issue has been raised at different levels and with different organisations and individuals.

Gweithgareddau hyd yn hyn:

- Cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn 2005
- Cyfraniadau a chyflwyniadau i adolygiadau'r Gweinidog dros Gyfiawnder
- Cyfarfodydd amrywiol gyda gweision sifil perthnasol i drafod materion
- Ymchwil i'r lle sydd ar gael a chyflwr ein claddfeydd yn 2007
- Ymweliad a thrafodaeth gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder yn 2008
- Ymchwil gyfreithiol hanesyddol o ran sut y cyrhaeddwyd y sefyllfa bresennol
- Cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae CLILC yn dal i ystyried y mater.
- Trafodaethau gyda Grŵp Profedigaeth Hollbleidiol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cwestiwn a ofynnwyd ym mis Ebrill 2009 gan Alun Cairns AC i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyda'r ateb canlynol:
"Mae'r Eglwys yng Nghymru'n gyfrifol am gynnal a chadw ei mynwentydd. Yn ymarferol, y Cyngor Plwyf Eglwysig sy'n gyfrifol am hyn. Byddai trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal a chadw mynwentydd sydd wedi cau i awdurdodau lleol, fel yn Lloegr, yn gofyn am newid deddfwriaeth. Mae fy swyddogion yn parhau i gyfrannu at y gwaith o adolygu cyfraith ac arferion claddu a wneir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ond nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan adran 214 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gyfrannu at unrhyw gostau sydd gan berson wrth ddarparu neu gynnal a chadw mynwent. Mae fy swyddogion wedi awgrymu wrth gynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru y dylent drafod hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i weld a oes modd iddynt gydweithio o gwbl.'

- Codi'r mater gydag Un Llais Cymru (y corff mantell ar gyfer Cyngorau Cymuned) ond heb gael ymateb.

Mae'r Corff Cynrychiolwyr yn credu y dylai claddfeydd fod ar gael i bawb fel asedau cymunedol allweddol ac, wedi iddynt gau, dylid eu cynnal a'u cadw ar gost cyhoeddus trwy osod dyletswydd ar Gyngorau Cymuned neu Awdurdodau Lleol i dalu costau'r gwaith cynnal a chadw.

Mae'n rhaid cydnabod bod rhai Cyngorau Cymuned ac Awdurdodau Lleol eraill eisoes yn cynorthwyo gyda chostau cynnal a chadw mynwentydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i gyllidebau awdurdodau lleol leihau mae'r arian hwn wedi'i dynnu'n ôl mewn rhai mannau ac mae'r Cyngorau Cymuned yn gyndyn o godi'r praesept i ariannu cymorth yn y maes hwn.

Gan fod y baich costau'n cynyddu yn a'r aelodau'n prinhaus mae'n amlwg y bydd plwyfi'n ei chael hi'n fwyfwy anodd i wneud y gwaith trwsio a'r cynnal a chadw angenrheidiol. Amcangyfrifir bod angen gwneud gwerth £60 miliwn o waith trwsio ar adeiladau eglwysig rhestredig dros y 5 mlynedd nesaf (gydag ond ychydig dros £500,000 ar gael mewn grantiau Cadw bob blwyddyn). Mae Cyngorau Plwyf Eglwysig yn dueddol o roi blaenoriaeth i wario ar adeilad yr eglwys ei hun, yn naturiol.

Mae mynwentydd yn ystorfa unigryw o wybodaeth am ein gorffennol ac maent yn adrodd hanes ein cenedl. Heb y cymorth angenrheidiol, bydd yr adnodd gwerthfawr hwn yn dirywio ymhellach.

Activities so far:

- Meeting in 2005 with the then Minister for Social Justice and Local Government
- Contributions and submissions to the Ministry of Justice reviews
- Various meetings with relevant civil servants to discuss issues
- Research into the capacity and condition of our burial grounds in 2007
- Visit and discussion in 2008 with Ministry of Justice
- Historical legal research into how the present position came about
- Meetings with representatives of the WLGA. The WLGA are still considering the issue.
- Discussions with the WAG All Party Bereavement Group
- Question tabled in April 2009 by Alun Cairns AM to Minister of Social Justice and Local Government with the following response:

'The Church in Wales is responsible for the maintenance of its churchyards. In practice, this responsibility is met by the Parochial Church Council. The transfer of responsibility for maintenance of closed churchyards to local authorities, as in England, would require a change in legislation. My officials continue to participate in the review of burial law and practice being undertaken by the Ministry of Justice. However, there are no plans to introduce primary legislation at this time.'

Local authorities have powers under section 214 of the Local Government Act 1972 to contribute towards any expenses incurred by a person in providing or maintaining a cemetery. My officials have suggested to representatives of the Church in Wales that they discuss this with the Welsh Local Government Association to explore possible avenues of collaboration.'

- Contact with One Voice Wales (the umbrella body for Community Councils) raising the issue but with no response.

The Representative Body believes that burial grounds should be available for all as key community assets and, once closed for burials, they should be maintained at public expense by there being a duty on Community Councils or Local Authorities to meet the costs of maintenance.

It must be acknowledged that some Community Councils and other Local Authorities do already assist with the costs of maintaining churchyards. In recent years as local authority budgets have tightened this funding has been withdrawn in some places and Community Councils are loathe to raise the precept to fund support in this area.

It is clear that with an ever increasing burden of costs falling on fewer church members it will be increasingly difficult for maintenance and repairs to continue. Church repairs to Listed buildings have been estimated at £60 million over the next 5 years (with just £500,000 available per annum in Cadw grants). Parochial Church Councils are understandably inclined to prioritise expenditure on the church building.

Churchyards are a unique repository of information about our past and provide the story of the Welsh nation. Without help, this precious resource will deteriorate yet further.

7. Y Camau Nesaf

Awgrymwyd nifer o syniadau i fynd i'r afael â'r baich parhaus sy'n gysylltiedig â chladdfeydd (yn enwedig y rhai sydd wedi cau):

1. Gofyn am gyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru i drafod y mater
2. Cynnal trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol trwy CLILC i rannu'r materion ac i ganfod tir cyffredin
3. Anfon papur briffio at bob Awdurdod Lleol a Chyngor Cymuned i bwysleisio'r materion ac i annog cymorth ar lefel leol
4. Briffio pob PCC ar y materion fel y gallant gynnal trafodaethau lleol i sicrhau cymorth
5. Datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd i roi sylw i'r materion
6. Newid sail ffioedd claddu i gynnwys ffi ychwanegol ar gyfer pob claddedigaeth a fydd yn cael ei roi mewn cronfa i gynnal y manau claddu sydd wedi cau
7. Sefydlu cytundeb ymddiriedolaeth enghreifftiol i alluogi cymunedau lleol i sefydlu ymddiriedolaethau i fod yn gyfrifol am reoli mynwentydd sydd wedi cau
8. Gofyn i'r Llywodraeth sefydlu Comisiwn i edrych ar ddarpariaeth a rheolaeth mynwentydd yng Nghymru i sicrhau dull wedi'i gynllunio a'i gydgyssylltu i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn.

Gofynnir i'r Corff Llywodraethol am eu sylwadau ar y syniadau hyn ynghyd ag unrhyw awgrymiadau eraill.

8. Cynnig y Corff Llywodraethol

Bod y Corff Llywodraethol:

- i) yn croesawu'r Adroddiad ar gladdfeydd a enwir 'Yr Eglwys yng Nghymru a'i Chladdfeydd';
- ii) yn cydnabod yn ddiolchgar yr arian, yr amser a'r egni a fuddsoddwyd gan blwyfolion ers y Datgysylltiad i gynnal a chadw mynwentydd yn asedau o bwys er budd y gymuned gyfan;
- iii) yn nodi cost arfaethedig cynnal a gwella mynwentydd yn y dyfodol;
- iv) yn cynnig y dylai mynwentydd a gaewyd gael eu cynnal ar gost y cyhoedd gan gynghorau cymuned neu awdurdodau lleol;
- v) yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun ar y cyd i ddarparu a chynnal claddfeydd y bydd pawb o'r darparwyr yn gyfrifol amdanynt;
- vi) yn annog trafod gyda chynghorau cymuned, awdurdodau lleol a chyrff perthnasol eraill, cenedlaethol a lleol, syniadau ar ofalu am fynwentydd a gaewyd.

Alex Glanville
Pennaeth Gwasanaethau Eiddo
Corff Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru
Mawrth 2010

7. Next Steps

To address the ongoing burden that burial grounds (particularly those that are closed) represent a number of ideas have been suggested:

1. Seek a meeting with the First Minister to discuss the issue
2. Conduct discussions with Local Authorities through the WLGA to share the issues and find common ground
3. Send a briefing paper to all Local Authorities and Community Councils to highlight the issues and encourage help at a local level
4. Brief PCC's on the issues so they can hold local discussions to gather support
5. Develop a publicity campaign to highlight the issues
6. Change the basis of burial fees to include an additional fee on each burial to be directed to a fund to maintain closed burial grounds
7. Establish a model trust agreement to allow local communities to set up trusts to take on the management of closed churchyards
8. Ask that a Government Commission be established to look at the provision and management of burials in Wales to ensure a planned and coordinated approach to this important issue.

Governing Body members are asked for their observations on these ideas as well as any other suggestions.

8. Governing Body Motion

That the Governing Body:

- i) welcome the Report on burial grounds entitled 'The Church in Wales and its burial grounds';
- ii) recognise with gratitude the money, time and energy invested by parishioners since Disestablishment in maintaining churchyards as significant community assets for the benefit of the whole community;
- iii) note the projected cost of future maintenance and improvement of churchyards;
- iv) propose that, once closed for burials, churchyards should be maintained at public expense by community councils or Local Authorities;
- v) call upon the Welsh Assembly Government together with Local Authorities to develop a coordinated and planned approach to the provision and maintenance of burial space between all providers;
- vi) encourage discussion with community councils, Local Authorities and other relevant bodies at a national and local level to explore ideas for looking after closed churchyards.

Alex Glanville
Head of Property Services
Representative Body of the Church in Wales
March 2010



Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru ac argraffwyd ar ddefnyddiadau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department and printed on recycled materials